



# Adeiladu Blwch Adar

Mae Siop Gorsaf Maenordy Scolton nawr yn cynnig gweithgaredd adeiladu blwch adar i ysgolion lleol.

Mae'r gweithgaredd addysgol yn addas i blant Cyfnod Allweddol 2 a gellir ei ddarparu un ai fel gweithgaredd unigol neu fel rhan o ymweliad ehangach â Maenordy Scolton.

Mae pob sesiwn yn costio £4 y plentyn, yn para am 30 munud ac yn addas ar gyfer hyd at 6 phlentyn ar y tro. Darperir yr holl ddeunyddiau ac mae angen goruchwyliaeth a chymorth gan oedolion bob amser. Gellir darparu gweithgareddau gwyllo adar ar gyfer y plant hynny nad ydyn nhw'n adeiladu blychau adar.

Mae'r gweithgaredd yn gyfle ardderchog i ddysgu am waith coed a bywyd gwylt lleol. Yn ogystal, oherwydd bod staff y Siop Gorsaf yn cynnwys unigolion sydd ag anableddau amrywiol, bydd y plant yn cael cyfle i ddysgu am integreiddio mewn amgylchedd cadarnhaol..

Rhaid archebu pob sesiwn adeiladu blwch adar o flaen llaw. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Nick neu Nigel ar 01437 763650 neu [nigel.bevans@pembrokeshire.gov.uk](mailto:nigel.bevans@pembrokeshire.gov.uk)

